

Ysgol Gynradd Lakeside: Cynllun Teithio Llesol
Ardal D - Croesfan Sebra Cefn Coed Road

Adroddiad Ymgynghori

Rhif Project: CO18108

Cynhaliwyd ymgynghoriad ar y cynllun uchod rhwng 22/02/2018 a 22/03/2018.

Diben yr ymgynghoriad oedd casglu gwybodaeth gan y gymuned leol er mwyn gwella'r cynllun a mynd i'r afael â gofidiau lleol os oedd modd.

O'r 50 eiddo yr ymgynghorwyd â hwy a'r 6 hysbysiad safle a godwyd ar y safle, derbyniwyd 8 o ymatebion unigol.

- 3 Sydd yn cefnogi'r cynllun, rhoddodd rhai sylwadau/awgrymiadau ychwanegol
- 2 Sydd yn anghytuno â'r cynigion

Mae'r pryderon a'r sylwadau wedi'u crynhoi mewn ysgrifen *italig* isod, ynghyd ag ymateb y Cyngor.

Argymhelliad

Yn sgil yr isod, cynigir bwrw ymlaen â gweithredu'r cynllun fel yr amlinellir yn y cynllun ymgynghori.

Materion yn ymwneud â phryderon parcio

“Ar adegau prysur, yn ystod yr wythnos pan fo myfyrwyr yn ymweld ac ar benwythnosau heulog gyda phobl sy'n mynd i Barc y Rhath, mae ceir yn parcio'n gyferbyn â chyffordd Gerddi Cefn Coed sy'n cyfyngu lled y ffordd; mae hyn yn achosi problemau gan fod rhaid i geir fynd i mewn i ganol Cefn Coed Road er mwyn gweld traffig sy'n dod i lawr y bryn tuag at y gyffordd”

“Yn aml mae myfyrwyr Cefn Coed Road yn parcio ar bob ochr”

“Mae lleoliad y groesfan arfaethedig ar ran o'r ffordd lle y caniateir parcio ar y ddwy ochr ar hyn o bryd. Mae'r sefyllfa hon wedi achosi problemau dros y blynyddoedd gan fod y ffordd yn rhy gul i 2 gar basio ei gilydd.”

“Yn anochel, bydd lleoliad y groesfan a'r diffyg lle parcio ar y ddwy ochr yn arwain at geir yn parcio ochr yn ochr â'i gilydd ymhellach i lawr y ffordd – y tu allan i'n tŷ. Hyd yn oed yn y sefyllfa gyfredol, yn aml, mae'n eithriadol anodd a pheryglus bacio allan o'n tramwyfa.”

“Os bydd y cynnig yn mynd yn ei flaen rwy'n meddwl ei bod yn hanfodol bod rhyw fath o gyfyngiad parcio'n cael ei gynnwys yn y cynllun – o gyffordd Gerddi Cefn Coed

Gardens tua Llyn Parc y Rhath. Yn ddelfrydol, gallai hyn fod yn gyfyngiad 'Dim Parcio rhwng 8am a 6pm ar un ochr o'r ffordd.'

"Mae myfyrwyr yn parcio'n broblem barhaol yn Cefn Coed Road ac er nad wyf yn gwrthwynebu'r groesfan sebra neu'i lleoliad arfaethedig, mae angen meddwl yn fwy am effaith gynyddol gwaredu ardal sylweddol o barcio."

Nid oes unrhyw gynigion i gyflwyno cyfyngiadau parcio ychwanegol (Gorchmynion Rheoli Traffig) yn rhan o'r cynllun hwn, ond cydnabyddir y caiff lle parcio ei golli o ganlyniad i linellau igam ogam y groesfan sebra arfaethedig. Caiff y lefelau parcio eu hadolygu'n rhan o fonitro ar ôl gweithredu'r cynllun a rhoddir cyfyngiadau ychwanegol ar waith os credir bod angen gwneud hynny.

Dylid cyfeirio unrhyw geisiadau am Orchmynion Rheoleiddio Traffig at y tîm Gorchmynion Rheoleiddio Traffig i ymchwilio, gellir cysylltu â'r tîm drwy'r manylion isod:

Tîm Gorchymyn Rheoleiddio Traffig, Cyngor Caerdydd, Ystafell 301, Neuadd y Sir, Glanfa'r Iwerydd, Caerdydd, CF10 4UW GwasanaethauCymdogaeth-CymorthBusnes@caerdydd.gov.uk

Materion yn ymwneud â Mygdarthau

"Mae tystiolaeth newydd sy'n dangos bod bwrdd yn cyfrannu at drydydd achos mwyaf cyffredin Clefyd Alzheimer sef gronynnau haearn sydd wedi'u gwresogi i dymheredd uchel yn mynd i mewn i'r ymennydd (Cysylltwch ag Adran Biowyddoniaeth neu fi os hoffech chi gadarnhau hyn). Mae dim ond 2 ffynhonnell hysbys: - Breciau disg cerbydau ac injans cerbydau."

"Mae bwrdd hefyd yn rheswm hysbys sy'n achosi llygryddion eraill (gronynnau carbon, nwyau CO2 a NOx) a all arwain at risg uwch o asthma a bronchitis. Caiff mwy o'r un llygryddion eu creu pan gaiff y bwrdd ei adeiladu/atgyweirio o ganlyniad i darfu anochel gan draffig."

Cydnabyddir mai allyriadau traffig ffordd (gronynnau (DG) a nitrogen deuocsid cynradd/eilradd (NO2)) yw'r ffactor sy'n cyfrannu at ansawdd aer gwael fwyaf yng Nghaerdydd. Mae Cyngor Caerdydd yn ymwybodol iawn o'r pryderon am yr effeithiau ar ansawdd yr aer ac wedi ymrwymo i gyrraedd lefelau mor isel ag sy'n ymarferol bosibl. Er bod ymchwil wedi dangos y gall mesurau arafu traffig arwain at gynydd lleol ar gyfer rhai allyriadau gan gerbydau, mae mesurau o'r fath wedi eu cronni'n bennaf mewn ardaloedd preswyl heb lawer o draffig. Mae'n debygol na fydd cynnydd mawr mewn allyriadau o ganlyniad i osod mesurau arafu traffig ac mae'n annhebygol yr achosir effaith sylweddol ar lefelau ansawdd aer cyffredinol yn yr ardal, yn benodol yn y lleoliadau hynny yr ystyrir eu bod yn sensitif (eiddo preswyl). Mae wedi ei gofnodi bod lefel yr allyriadau yn lleihau wrth fynd ymhellach i ffwrdd o ymyl y ffordd ac felly bydd unrhyw gynydd lleol yn cael ei leihau wrth unrhyw eiddo preswyl cyfagos. Mae angen i'r Cyngor gydbwysu'r manteision a ddaw o fesurau arafu traffig, o ran achub

bywydau a lleihau anafiadau, gydag unrhyw gynnydd bach mewn allyriadau y gallai'r mesurau hyn ei achosi. Er mwyn gwella ansawdd yr aer, yn ogystal â chyfrannu at welliannau iechyd yng Nghaerdydd, mae cynyddu'r defnydd ar ddulliau teithio llesol a chynaliadwy yn hanfodol. Mae mesurau arafu traffig yn ddull effeithiol o annog a hyrwyddo cyfleoedd teithio llesol diogel, gwell diogelwch ar y ffyrdd ac yn ei hanfod, o wella ansawdd aer trwy leihau nifer y teithiau mewn cerbydau.

Mae'r Cyngor yn ymwybodol o'r pryderon am iechyd plant sy'n gysylltiedig â phroblemau llygredd aer a ddaw o draffig ger ysgolion. Er y gwerthfawrogi'r y gallai cynnydd yn llif y traffig yn ystod amseroedd cymudo prysur y bore a'r prynhawn achosi cynnydd tymor byr mewn crynodiadau llygredd, mae'r Cyngor wedi ymrwmo i fonitro nifer o ysgolion ledled Caerdydd sy'n nodi bod lefelau yn yr ysgolion hyn yn is na'r safonau ansawdd aer disgwylidig ar gyfer NO2. Mae'r Cyngor yn ystyried ymestyn ei raglen fonitro ysgolion ymhellach yn 2019, a gallwn fynd at Ysgol Gynradd Lakeside i weld a yw'n dymuno cymryd rhan yn y rhaglen hon. Fodd bynnag, er mwyn sicrhau lleihad pellach o ran effaith llygredd ar blant, yr ateb gorau a mwyaf cynaliadwy i'r problemau hyn yw annog mwy o blant i gerdded a beicio i'r ysgol, yn lle cael eu gyrru yno. I'r perwyl hwn, mae gennym ddyhead i bob ysgol yng Nghaerdydd ddatblygu Cynllun Teithio Llesol. Byddai cynllun o'r fath yn dangos ymrwymiad ysgol i hyrwyddo teithio llesol trwy bolisiau penodol a gweithgareddau addysgol yn ogystal â nodi gwelliannau seilwaith i'r dyfodol y tu allan i gatiâu'r ysgol i wneud cerdded a beicio'n haws. Mae'r Cyngor wedi ymrwmo i gefnogi ysgolion i ddatblygu a gweithredu Cynlluniau Teithio Llesol. Ar hyn o bryd rydym yn gweithio gyda nifer fach o ysgolion i dreialu gweithgareddau penodol gyda'r bwriad o ddatblygu dull y gellir ei gyflwyno'n ehangach. Byddwn yn mynd at Ysgol Gynradd Lakeside i fesur ei diddordeb o ran datblygu Cynllun Teithio Llesol.

Materion yn ymwneud â Dirgrynu

"Mae defnyddio unrhyw fath o dwmpathau traffig yn achosi dirgrynu sydd, yn yr achosion gwaethaf, yn gallu achosi niwed i dai, waliau cyfagos ac ati."

"Mae defnyddio twmpathau'n achosi anghysur i bob cerbyd, beicwyr yn benodol"

Parthed dirgrynu i eiddo, mae'r canllawiau gan yr Adran Drafnidiaeth ar dwmpathau ffordd a dirgrynu yn y tir wedi ei seilio ar Safon Prydeinig 7385: Rhan 2 sy'n nodi'r gwerthoedd trothwy dirgrynu a allai achosi mân ddifrod cosmetig i adeiladau. Defnyddiwyd y gwerthoedd hyn i gyfrifo'r pellter lleiaf y gellir lleoli rhwystrau ffordd o anheddau, yn ôl natur y pridd. Mae'r tabl hwn yn dangos na ddylai hyn achosi hyd yn oed fân graciau trwch blewyn oni bai bod y rhwystrau wedi cael eu gosod llai na 4m o annedd, hyd yn oed ar y pridd meddalaf, er ei bod yn bosib y gellid teimlo effeithiau cerbyd masnachol yn croesi'r rhwystr ar bridd meddal hyd at 76m o'r safle. Fodd bynnag, gan fod yr eiddo ar Cefn Coed Road ymhellach i ffwrdd na'r pellter lleiaf a roddir yn y cyngor, credir na fyddai unrhyw ddifrod strwythurol yn cael ei achosi gan ddirgrynu.

Mae wedi'i brofi bod mesurau arafu traffig yn ffordd effeithiol o leihau anafiadau ffordd. Nid ar chwarae bach y penderfynwyd gosod rampiau a deallir eu bod yn achosi anghyfleuster i yrwyr diogel a chyfrifol sy'n cydymffurfio â'r gyfraith. Yn anffodus canfuwyd mai'r rhain, yn aml, yw'r unig fesur effeithiol y gellir eu defnyddio i sicrhau bod y ffyrdd yn ddiogel, yn benodol i ddefnyddwyr agored i niwed megis cerddwyr a beicwyr sy'n hen ac ifanc. Mae hyn oherwydd ar hyn o bryd yn aml y rampiau yw'r unig fesur sy'n gwella'n effeithiol ac yn sylweddol ymddygiad gyrru'r lleiafrif o yrwyr anniogel, anghyfrifol a diofal. Bydd y traffig yn gyrru'r arafach a fydd yn creu amgylchedd priffordd diogelach i bob defnyddiwr y ffordd.

Bydd dyluniad y byrddau arafu yn cynnwys graddiannau ramp o 1/14, gyda hyd gwastad o 6m ac uchder ramp o 75mm. Dylai hyn arwain at ramp sy'n effeithiol o ran lleihau cyflymderau cerbydau ac, os gyrrir drosto ar gyflymder priodol, ni ddylai achosi anghysur i deithwyr mewn cerbydau.

Materion yn ymwneud â chost y cynllun

"Byddai cost y dyrchafu, yn y lle cyntaf ac ar ôl hynny (+ costau celfi stryd ychwanegol/llygredd golau) yn achub llawer mwy o fywydau pe bai'r arian yn cael ei roi i'r Gwasanaethau Cymdeithasol er enghraifft.

Bydd y pecyn o fesurau arfaethedig yn helpu i greu llwybrau cerdded diogel i Ysgol Gynradd Lakeside, a chreu amgylchedd priffordd diogelach trwy gael cerbydau sy'n teithio'r arafach a chroesfannau i gerddwyr ffurfiol. Bydd hyn yn annog mwy o blant i gerdded i'r ysgol, cynyddu lefelau gweithgarwch, a fydd yn cael buddion iechyd cadarnhaol. Mae'r cynnig yn cael ei ddatblygu trwy ddefnyddio arian gan Lywodraeth Cymru dan ei Grant 'Teithio Llesol', nid yw'n bosibl i ni ddefnyddio'r arian at ddibenion eraill.

Materion yn ymwneud â'r sŵn

"Ansawdd bywyd llawer is i'r rheiny sy'n byw'n agosach at fwrdd; bydd angen iddynt oddef yr "ergyd" diddiwedd wrth i gerbydau fynd dros y bwrdd".

Nid ydym yn cynnal arolygon sŵn cyn neu ar ôl gosod nodweddion arafu traffig fel y rhain. Rydym yn dibynnu ar Ganllawiau'r Adran Drafnidiaeth megis Taflen Gynghorol Traffig 6/96 a Nodyn Trafnidiaeth Leol 1/07. Mae'r cyngor yn y dogfennau hyn fel a ganlyn:

"Conventional methods of measuring traffic noise do not readily expose annoyance factors associated with changes in the variability of noise . Consequently, it is difficult to predict accurately the perceived noise impact of traffic calming schemes (Abbot et al., 1995b)."

Felly nid ydym yn mesur lefelau sŵn wrth roi cynlluniau arafu traffig ar waith. Rydym wedi dewis cyflwyno rampiau tarmac yn y lleoliad hwn yn hytrach na rampiau parod gan fod rampiau tarmac yn llai llym na rampiau parod ac maent yn achosi llai o sŵn a dirgrynu. Twmpathau ffordd yw'r unig ffordd sydd ar gael i ni ar hyn o bryd sy'n

lleihau cyflymderau cerbydau'n effeithiol er mwyn gwella diogelwch ar y ffyrdd i ddefnyddwyr sy'n agored i niwed, er ein bod yn gwerthfawrogi y gallai fod lefelau uwch o sŵn.

Materion yn ymwneud â dŵr yn mynd yn bwl

“Nid yw'r ardal arfaethedig ar gyfer y bwrdd yn profi llifau dŵr sy'n anarferol drwm. Mae'r rhan fwyaf o fyrddau Caerdydd yn achosi problemau i gerddwyr a thrigolion o ganlyniad i byllau dŵr sy'n gwlychu pobl yn mynd heibio.”

Caiff y gofynion am ddarpariaeth ddraenio eu hasesu yn ystod y cam dylunio manwl, a chânt eu trafod a'u cytuno gyda tîm draeniau'r Cyngor. Caiff cysylltiadau gyli newydd eu gosod yn ôl yr angen.

Materion yn ymwneud â lleoliad y Groesfan

“Gan edrych ar y safle arfaethedig ar y cynllun ar gyfer y groesfan sebra, mae'n ymddangos ei bod yn agos iawn at fynedfa Cefn Coed Avenue, efallai'n rhy agos. Mae'r llinell welediad i'r dde i yrwyr sy'n gadael Cefn Coed Road bob amser wedi'i rhwystro gan linell Cefn Coed Road. Oherwydd hynny, mae angen bod yn ofalus iawn am resymau diogelwch.”

“Nid yw arddull a lleoliad arfaethedig hyn yn ystyried gwelededd i ddefnyddwyr ceir wrth adael Cefn Coed Avenue.”

Mae arolygon llif cerddwyr wedi'u cynnal wrth ddatblygu'r cynllun sydd wedi nodi bod cerddwyr yn croesi wrth y lleoliad hwn, a chredir bod gosod croesfan lle mae'n gwasanaethu'r llwybr a ffeirir o'r bwys uchaf.

Bydd y marciau ffordd igam-ogam sy'n gysylltiedig â'r groesfan newydd yn golygu na chaniateir i gerbydau barcio mor agos at y gyffordd ag y maent ar hyn o bryd, bydd hyn felly'n gwella gwelededd i yrwyr sy'n gadael Cefn Coed Avenue.

Gellir gosod Croesfannau Sebra o fewn 5m o Gyffordd a gallwn gadarnhau bod hyn wedi'i nodi mewn canllawiau dylunio.

Materion yn ymwneud â rhwystrau ymwithiol

*“Mae'r rhwystrau ymwithiol yn amharu rhagor ar welededd wrth adael Cefn Coed Avenue
Mae rhwystrau ymwithiol yn cynyddu'r perygl i feicwyr sy'n gorfod gwyro eu llwybr, o bosibl i mewn i lwybr cerbydau.”*

Bydd y rhwystrau ymwithiol yn galluogi cerddwyr i weld yn glir, a chael eu gweld, gan gerbydau sy'n dod atynt. Pan fo cerddwyr yn defnyddio'r groesfan, neu'n aros ar rhwystrau ymwithiol, bydd ganddynt flaenoriaeth ar yrwyr a byddant yn stopio traffig a Cefn Coed Avenue, bydd hyn yn ei gwneud yn haws i gerddwyr adael Cefn Coed Avenue.

Bydd y marciau ffordd igam-ogam yn helpu i dywys beicwyr wrth iddynt nesáu at y groesfan sebra, ni fydd yn rhaid i feicwyr newid eu cyfeiriad yn sydyn a fyddai'n achosi problemau gyda gyrwyr.

Cefnogaeth dros y cynllun

“Rwy’n croesawu’r cyfle am le diogel i groesi a chynllun rheoli traffig a fydd yn lleihau cyflymder traffig sy’n teithio i fyny ac i lawr Cefn Coed Road.”

“Rwy’n croesawu’r cyfle am le diogel i groesi a chynllun rheoli traffig a fydd yn lleihau cyflymder traffig sy’n teithio i fyny ac i lawr Cefn Coed Road. Fel preswylwyr Gerddi Cefn Coed, rydym yn teimlo, yn ogystal â chroesfan ddiogel i gerddwyr,..”


“Rwy’n cefnogi gosod y Groesfan i Gerddwyr arfaethedig yn llawn.”

“Yn amlwg, rwy’n awyddus i gefnogi diogelwch plant”

“Rydym yn falch o glywed bod croesfan sebra wedi’i chynllunio ar gyfer Cefn Coed Road. Fel preswylwyr Gerddi Cefn Coed, rydym yn teimlo, yn ogystal â chroesfan ddiogel i gerddwyr, y bydd yn arafu traffig wrth iddo nesáu at ein cyffordd.”

Yn dilyn ymgynghoriadau diweddar ar gynnig rheoli traffig, mae'r Cyngor yn paratoi i weithredu'r cynllun rheoli traffig yn seiliedig ar y cynllun.

Mae rhagor o fanylion am yr ymgynghori hwn ar gael yn www.caerdydd.gov.uk/Projectautrafnidiaeth ar y ddolen 'gweld ymgynghoriadau'. Fel arall, e-bostiwch Projectautrafnidiaeth@caerdydd.gov.uk neu ffoniwch 029 2087 3354 i ofyn am gopi papur o'r adroddiad ymgynghori.



Following the recent consultation on a traffic management proposal, the Council is preparing to implement the scheme based on the plan shown.

Further details about this consultation are available at www.cardiff.gov.uk/TransportProjects using the 'view consultations' link. Alternatively, please e-mail TransportProjects@cardiff.gov.uk or telephone 029 2087 3354 to request a paper copy of the post-consultation report.